**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Shan Morgan CMG
Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru
Caerdydd
CF10 3NQ

9 Chwefror 2017

Annwyl Shan,

**Diogelwch Cymunedol yng Nghymru**

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru ym mis Hydref 2016. Ystyriodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ganfyddiadau'r adroddiad hwn, ynghyd ag Ymateb Llywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2016. Fel cam gweithredu yn dilyn ystyriaeth yr Aelodau o'r adroddiad a'r ymateb, ysgrifennais at Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i ganfod eu barn ar yr adroddiad. Mae eu hymatebion wedi cael eu cyhoeddi ar dudalen we y Pwyllgor.

Daeth y Pwyllgor yn ôl at y pwnc hwn ar 30 Ionawr. Fel y nodwyd gan ymateb Llywodraeth Cymru, bydd adolygiad sylfaenol o ddiogelwch cymunedol yng Nghymru yn cael ei gynnal yn hytrach na dim ond mynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

Cytunodd y Pwyllgor i ailedrych ar y mater ar gyhoeddi adolygiad Llywodraeth Cymru i ystyried a chytuno a oedd wedyn yn dymuno ymgymryd ag ymchwiliad. Fodd bynnag, yn y cyfamser, byddwn yn croesawu eglurhad manwl o'r hyn y mae adolygiad arfaethedig Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ystyried gan gynnwys:

- Cadarnhad o gwmpas arfaethedig y gwaith adnewyddu;
- Gwybodaeth am ba asiantaethau fydd yn cymryd rhan yn yr ymarfer hwn;
- Yr amserlen ar gyfer cychwyn a chwblhau'r ymarfer;

- Y canlyniadau a geisir a'r manteision disgwyliedig a fyddai'n deillio o'r ymarfer; a
- Sut y bydd yr adolygiad yn ceisio mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb ac rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**